Llangunllo	£705.47	£823.04	£940.62	£1,058.20	£1,293.36	£1,528.51	£1,763.67	£2,116.40	£2,469.13
Llanyre	£709.08	£827.26	£945.44	£1,063.62	£1,299.98	£1,536.34	£1,772.70	£2,127.24	£2,481.78
Nantmel	£708.77	£826.89	£945.02	£1,063.15	£1,299.41	£1,535.66	£1,771.92	£2,126.30	£2,480.68
New Radnor	£712.41	£831.15	£949.88	£1,068.62	£1,306.09	£1,543.56	£1,781.03	£2,137.24	£2,493.45
Old Radnor	£705.63	£823.23	£940.84	£1,058.44	£1,293.65	£1,528.86	£1,764.07	£2,116.88	£2,469.69
Painscastle	£701.22	£818.09	£934.96	£1,051.83	£1,285.57	£1,519.31	£1,753.05	£2,103.66	£2,454.27
Penybont & Llandegley	£705.15	£822.67	£940.20	£1,057.72	£1,292.77	£1,527.82	£1,762.87	£2,115.44	£2,468.01
Presteigne & Norton	£726.41	£847.48	£968.55	£1,089.62	£1,331.76	£1,573.90	£1,816.03	£2,179.24	£2,542.45
Rhayader	£724.85	£845.65	£966.46	£1,087.27	£1,328.89	£1,570.50	£1,812.12	£2,174.54	£2,536.96
St Harmon	£703.75	£821.05	£938.34	£1,055.63	£1,290.21	£1,524.80	£1,759.38	£2,111.26	£2,463.14
Whitton	£705.08	£822.59	£940.11	£1,057.62	£1,292.65	£1,527.67	£1,762.70	£2,115.24	£2,467.78

sef y symiau a roddwyd drwy luosi'r symiau yn 3(h) uchod gan y rhif sydd, yn y gyfran a osodwyd allan yn Adran 5 (1) y Ddeddf, yn gymwys i anheddau a restrwyd mewn Band Prisio penodol wedi ei rannu gan y rhif sydd yn y cyfran hwnnw yn gymwys ag anheddau a restrwyd ym Mand Gwerth D, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36 (1) y Ddeddf, fel y symiau i'w cymryd i ystyriaeth ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategoriâu anheddau a restrwyd mewn gwahanol Fandiau Prisiau.

- 2.2. BYDDED iddo gael ei ddynodi ar gyfer y flwyddyn 2015/2016 fod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud datganiad o'r symiau canlynol o ran archebiannau a gyflwynwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992, ar gyfer bob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:

***Bandiau Prisiau***

<b>A</b>	<b>B</b>	<b>C</b>	<b>D</b>	<b>E</b>	<b>F</b>	<b>G</b>	<b>H</b>	<b>I</b>
£ 133.38	£ 155.61	£ 177.84	£ 200.07	£ 244.53	£ 288.99	£ 333.45	£ 400.14	£ 466.83

- 2.3. A BOD, yn dilyn cyfrifo'r cyfrannedd ym mhob achos o'r symiau yn 2.1(i) a 2.2 uchod, y Cyngor yn unol ag Adran 30 (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992, gyda hyn yn gosod y symiau canlynol fel y symiau o Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2015/2016 am bob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod.

**BRECKNOCKSHIRE/SIR FRYCHEINIOG****COMMUNITY/CYMUNED****COUNCIL TAX BANDS/TRETH CYNGOR BAND**

	<b>A</b>	<b>B</b>	<b>C</b>	<b>D</b>	<b>E</b>	<b>F</b>	<b>G</b>	<b>H</b>	<b>I</b>
Brecon	£881.71	£1,028.66	£1,175.61	£1,322.56	£1,616.46	£1,910.36	£2,204.27	£2,645.12	£3,085.97
Bronllys	£850.71	£992.50	£1,134.28	£1,276.07	£1,559.64	£1,843.21	£2,126.78	£2,552.14	£2,977.50
Builth Wells	£871.83	£1,017.14	£1,162.44	£1,307.75	£1,598.36	£1,888.97	£2,179.58	£2,615.50	£3,051.42
Cilmery	£838.66	£978.44	£1,118.21	£1,257.99	£1,537.54	£1,817.10	£2,096.65	£2,515.98	£2,935.31
Cray	£847.66	£988.94	£1,130.21	£1,271.49	£1,554.04	£1,836.60	£2,119.15	£2,542.98	£2,966.81
Crickhowell	£856.05	£998.72	£1,141.40	£1,284.07	£1,569.42	£1,854.77	£2,140.12	£2,568.14	£2,996.16
Duhonw	£835.33	£974.55	£1,113.77	£1,252.99	£1,531.43	£1,809.87	£2,088.32	£2,505.98	£2,923.64
Erwood	£838.08	£977.76	£1,117.44	£1,257.12	£1,536.48	£1,815.84	£2,095.20	£2,514.24	£2,933.28
Felinfach	£842.87	£983.35	£1,123.83	£1,264.31	£1,545.27	£1,826.23	£2,107.18	£2,528.62	£2,950.06
Glyn Tarrell	£848.42	£989.82	£1,131.23	£1,272.63	£1,555.44	£1,838.24	£2,121.05	£2,545.26	£2,969.47
Gwernyfed	£843.15	£983.67	£1,124.20	£1,264.72	£1,545.77	£1,826.82	£2,107.87	£2,529.44	£2,951.01
Hay-on-Wye	£862.65	£1,006.43	£1,150.20	£1,293.98	£1,581.53	£1,869.08	£2,156.63	£2,587.96	£3,019.29
Honddu Isaf	£831.79	£970.42	£1,109.05	£1,247.68	£1,524.94	£1,802.20	£2,079.47	£2,495.36	£2,911.25
Llanafanfawr	£838.23	£977.94	£1,117.64	£1,257.35	£1,536.76	£1,816.17	£2,095.58	£2,514.70	£2,933.82
Llanddew	£844.45	£985.20	£1,125.94	£1,266.68	£1,548.16	£1,829.65	£2,111.13	£2,533.36	£2,955.59
Cwmdu and District	£842.45	£982.86	£1,123.27	£1,263.68	£1,544.50	£1,825.32	£2,106.13	£2,527.36	£2,948.59
Llanfrynach	£855.52	£998.11	£1,140.69	£1,283.28	£1,568.45	£1,853.63	£2,138.80	£2,566.56	£2,994.32
Llangammarch	£847.79	£989.08	£1,130.38	£1,271.68	£1,554.28	£1,836.87	£2,119.47	£2,543.36	£2,967.25
Llangattock	£852.39	£994.46	£1,136.52	£1,278.59	£1,562.72	£1,846.85	£2,130.98	£2,557.18	£2,983.38
Llangorse	£845.57	£986.49	£1,127.42	£1,268.35	£1,550.21	£1,832.06	£2,113.92	£2,536.70	£2,959.48
Llangynidr	£842.14	£982.50	£1,122.85	£1,263.21	£1,543.92	£1,824.64	£2,105.35	£2,526.42	£2,947.49
Llanigon	£839.94	£979.93	£1,119.92	£1,259.91	£1,539.89	£1,819.87	£2,099.85	£2,519.82	£2,939.79
Llanwrthwl	£843.80	£984.43	£1,125.07	£1,265.70	£1,546.97	£1,828.23	£2,109.50	£2,531.40	£2,953.30
Llanwrtyd Wells	£858.27	£1,001.31	£1,144.36	£1,287.40	£1,573.49	£1,859.58	£2,145.67	£2,574.80	£3,003.93
Llywel	£847.21	£988.42	£1,129.62	£1,270.82	£1,553.22	£1,835.63	£2,118.03	£2,541.64	£2,965.25
Maescar	£848.83	£990.30	£1,131.77	£1,273.24	£1,556.18	£1,839.12	£2,122.07	£2,546.48	£2,970.89
Merthyr Cynog	£843.84	£984.48	£1,125.12	£1,265.76	£1,547.04	£1,828.32	£2,109.60	£2,531.52	£2,953.44
Talgarth	£868.13	£1,012.81	£1,157.50	£1,302.19	£1,591.57	£1,880.94	£2,170.32	£2,604.38	£3,038.44
Talybont-on-Usk	£849.65	£991.26	£1,132.87	£1,274.48	£1,557.70	£1,840.92	£2,124.13	£2,548.96	£2,973.79
Tawe Uchaf	£851.35	£993.24	£1,135.13	£1,277.02	£1,560.80	£1,844.58	£2,128.37	£2,554.04	£2,979.71
Trallong	£838.08	£977.76	£1,117.44	£1,257.12	£1,536.48	£1,815.84	£2,095.20	£2,514.24	£2,933.28
Treflys	£839.32	£979.21	£1,119.09	£1,258.98	£1,538.75	£1,818.53	£2,098.30	£2,517.96	£2,937.62
Vale of Grwyney	£840.03	£980.04	£1,120.04	£1,260.05	£1,540.06	£1,820.07	£2,100.08	£2,520.10	£2,940.12
Yscir	£839.13	£978.98	£1,118.84	£1,258.69	£1,538.40	£1,818.11	£2,097.82	£2,517.38	£2,936.94
Ystradfellte	£852.11	£994.13	£1,136.15	£1,278.17	£1,562.21	£1,846.25	£2,130.28	£2,556.34	£2,982.40
Ystradavnlais	£886.37	£1,034.09	£1,181.82	£1,329.55	£1,625.01	£1,920.46	£2,215.92	£2,659.10	£3,102.28

MONTGOMERYSHIRE/SIR DREFALDWYNCOMMUNITY/CYMUNEDCOUNCIL TAX BANDS/TRETH CYNGOR BAND

	<u>A</u>	<u>B</u>	<u>C</u>	<u>D</u>	<u>E</u>	<u>F</u>	<u>G</u>	<u>H</u>	<u>I</u>
Aberhafesp	£841.12	£981.31	£1,121.49	£1,261.68	£1,542.05	£1,822.43	£2,102.80	£2,523.36	£2,943.92
Banwy	£841.85	£982.16	£1,122.47	£1,262.78	£1,543.40	£1,824.02	£2,104.63	£2,525.56	£2,946.49
Bausley with Criggion	£843.61	£984.21	£1,124.81	£1,265.41	£1,546.61	£1,827.81	£2,109.02	£2,530.82	£2,952.62
Berriew	£838.22	£977.92	£1,117.63	£1,257.33	£1,536.74	£1,816.14	£2,095.55	£2,514.66	£2,933.77
Betws Cedewain	£848.70	£990.15	£1,131.60	£1,273.05	£1,555.95	£1,838.85	£2,121.75	£2,546.10	£2,970.45
Cadfarch	£837.25	£976.79	£1,116.33	£1,255.87	£1,534.95	£1,814.03	£2,093.12	£2,511.74	£2,930.36
Caersws	£850.56	£992.32	£1,134.08	£1,275.84	£1,559.36	£1,842.88	£2,126.40	£2,551.68	£2,976.96
Carno	£851.31	£993.20	£1,135.08	£1,276.97	£1,560.74	£1,844.51	£2,128.28	£2,553.94	£2,979.60
Carreghofa	£864.35	£1,008.41	£1,152.47	£1,296.53	£1,584.65	£1,872.77	£2,160.88	£2,593.06	£3,025.24
Castle Caereinion	£847.15	£988.35	£1,129.54	£1,270.73	£1,553.11	£1,835.50	£2,117.88	£2,541.46	£2,965.04
Churchstoke	£844.85	£985.65	£1,126.46	£1,267.27	£1,548.89	£1,830.50	£2,112.12	£2,534.54	£2,956.96
Dwyrhiw	£833.13	£971.98	£1,110.84	£1,249.69	£1,527.40	£1,805.11	£2,082.82	£2,499.38	£2,915.94
Fornden	£850.71	£992.50	£1,134.28	£1,276.07	£1,559.64	£1,843.21	£2,126.78	£2,552.14	£2,977.50
Glantwymyn	£840.67	£980.79	£1,120.90	£1,261.01	£1,541.23	£1,821.46	£2,101.68	£2,522.02	£2,942.36
Guilfield	£838.80	£978.60	£1,118.40	£1,258.20	£1,537.80	£1,817.40	£2,097.00	£2,516.40	£2,935.80
Kerry	£847.43	£988.67	£1,129.91	£1,271.15	£1,553.63	£1,836.11	£2,118.58	£2,542.30	£2,966.02
Llanbrynmair	£844.35	£985.07	£1,125.80	£1,266.52	£1,547.97	£1,829.42	£2,110.87	£2,533.04	£2,955.21
Llandinam	£845.37	£986.27	£1,127.16	£1,268.06	£1,549.85	£1,831.64	£2,113.43	£2,536.12	£2,958.81
Llandrinio and Arddleen	£845.03	£985.86	£1,126.70	£1,267.54	£1,549.22	£1,830.89	£2,112.57	£2,535.08	£2,957.59
Llandysilio	£848.60	£990.03	£1,131.47	£1,272.90	£1,555.77	£1,838.63	£2,121.50	£2,545.80	£2,970.10
Abermule with Llandyssil	£852.67	£994.78	£1,136.89	£1,279.00	£1,563.22	£1,847.44	£2,131.67	£2,558.00	£2,984.33
Llanerfyl	£838.29	£978.01	£1,117.72	£1,257.44	£1,536.87	£1,816.30	£2,095.73	£2,514.88	£2,934.03
LLanfair Caereinion	£856.05	£998.73	£1,141.40	£1,284.08	£1,569.43	£1,854.78	£2,140.13	£2,568.16	£2,996.19
Llanfechain	£844.05	£984.73	£1,125.40	£1,266.08	£1,547.43	£1,828.78	£2,110.13	£2,532.16	£2,954.19
Llanfihangel	£847.10	£988.28	£1,129.47	£1,270.65	£1,553.02	£1,835.38	£2,117.75	£2,541.30	£2,964.85
Llanfyllin	£846.27	£987.31	£1,128.36	£1,269.40	£1,551.49	£1,833.58	£2,115.67	£2,538.80	£2,961.93
Llangedwyn	£835.30	£974.52	£1,113.73	£1,252.95	£1,531.38	£1,809.82	£2,088.25	£2,505.90	£2,923.55
Llangurig	£835.61	£974.87	£1,114.14	£1,253.41	£1,531.95	£1,810.48	£2,089.02	£2,506.82	£2,924.62
Llangyniew	£842.81	£983.28	£1,123.75	£1,264.22	£1,545.16	£1,826.10	£2,107.03	£2,528.44	£2,949.85
Llangynog	£851.12	£992.97	£1,134.83	£1,276.68	£1,560.39	£1,844.09	£2,127.80	£2,553.36	£2,978.92
Llanidloes	£903.11	£1,053.62	£1,204.14	£1,354.66	£1,655.70	£1,956.73	£2,257.77	£2,709.32	£3,160.87
Llanidloes Without	£845.35	£986.25	£1,127.14	£1,268.03	£1,549.81	£1,831.60	£2,113.38	£2,536.06	£2,958.74

<u>COMMUNITY/CYMUNED</u>	<u>COUNCIL TAX BANDS/TRETH CYNGOR BAND</u>								
	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Llanrhaeadr ym Mochnant	£840.59	£980.69	£1,120.79	£1,260.89	£1,541.09	£1,821.29	£2,101.48	£2,521.78	£2,942.08
Llansantffraid	£844.80	£985.60	£1,126.40	£1,267.20	£1,548.80	£1,830.40	£2,112.00	£2,534.40	£2,956.80
Llansilin	£834.21	£973.25	£1,112.28	£1,251.32	£1,529.39	£1,807.46	£2,085.53	£2,502.64	£2,919.75
Llanwddyn	£850.79	£992.59	£1,134.39	£1,276.19	£1,559.79	£1,843.39	£2,126.98	£2,552.38	£2,977.78
Machynlleth	£893.51	£1,042.42	£1,191.34	£1,340.26	£1,638.10	£1,935.93	£2,233.77	£2,680.52	£3,127.27
Manafon	£843.14	£983.66	£1,124.19	£1,264.71	£1,545.76	£1,826.80	£2,107.85	£2,529.42	£2,950.99
Meifod	£837.27	£976.82	£1,116.36	£1,255.91	£1,535.00	£1,814.09	£2,093.18	£2,511.82	£2,930.46
Mochdre with Penstrowed	£846.16	£987.19	£1,128.21	£1,269.24	£1,551.29	£1,833.35	£2,115.40	£2,538.48	£2,961.56
Montgomery	£853.81	£996.11	£1,138.41	£1,280.71	£1,565.31	£1,849.91	£2,134.52	£2,561.42	£2,988.32
Newtown & Llanllwchaiarn	£878.03	£1,024.37	£1,170.71	£1,317.05	£1,609.73	£1,902.41	£2,195.08	£2,634.10	£3,073.12
Pen Y Bont Fawr	£851.13	£992.99	£1,134.84	£1,276.70	£1,560.41	£1,844.12	£2,127.83	£2,553.40	£2,978.97
Trefeglwys	£839.20	£979.07	£1,118.93	£1,258.80	£1,538.53	£1,818.27	£2,098.00	£2,517.60	£2,937.20
Tregynon	£846.95	£988.11	£1,129.27	£1,270.43	£1,552.75	£1,835.07	£2,117.38	£2,540.86	£2,964.34
Trewern	£847.79	£989.09	£1,130.39	£1,271.69	£1,554.29	£1,836.89	£2,119.48	£2,543.38	£2,967.28
Welshpool	£901.06	£1,051.24	£1,201.41	£1,351.59	£1,651.94	£1,952.30	£2,252.65	£2,703.18	£3,153.71

RADNORSHIRE/SIR FAESYFED

<u>COMMUNITY/CYMUNED</u>	<u>COUNCIL TAX BANDS/TRETH CYNGOR BAND</u>								
	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Abbecwmhir	£843.02	£983.52	£1,124.03	£1,264.53	£1,545.54	£1,826.54	£2,107.55	£2,529.06	£2,950.57
Aberedw	£835.05	£974.22	£1,113.40	£1,252.57	£1,530.92	£1,809.27	£2,087.62	£2,505.14	£2,922.66
Beguildy	£844.73	£985.52	£1,126.31	£1,267.10	£1,548.68	£1,830.26	£2,111.83	£2,534.20	£2,956.57
Clyro	£836.84	£976.31	£1,115.79	£1,255.26	£1,534.21	£1,813.15	£2,092.10	£2,510.52	£2,928.94
Disserth & Trecoed	£841.85	£982.15	£1,122.46	£1,262.77	£1,543.39	£1,824.00	£2,104.62	£2,525.54	£2,946.46
Gladestry	£837.95	£977.60	£1,117.26	£1,256.92	£1,536.24	£1,815.55	£2,094.87	£2,513.84	£2,932.81
Glasbury	£846.36	£987.42	£1,128.48	£1,269.54	£1,551.66	£1,833.78	£2,115.90	£2,539.08	£2,962.26
Glascwm	£838.91	£978.72	£1,118.54	£1,258.36	£1,538.00	£1,817.63	£2,097.27	£2,516.72	£2,936.17
Knighton	£850.59	£992.36	£1,134.12	£1,275.89	£1,559.42	£1,842.95	£2,126.48	£2,551.78	£2,977.08
Llanbadarn Fawr	£836.56	£975.99	£1,115.41	£1,254.84	£1,533.69	£1,812.55	£2,091.40	£2,509.68	£2,927.96
Llanbadarn Fynydd	£845.13	£985.98	£1,126.84	£1,267.69	£1,549.40	£1,831.11	£2,112.82	£2,535.38	£2,957.94
Llanbister	£839.81	£979.77	£1,119.74	£1,259.71	£1,539.65	£1,819.58	£2,099.52	£2,519.42	£2,939.32
Llanddewi Ystradenny	£837.01	£976.51	£1,116.01	£1,255.51	£1,534.51	£1,813.51	£2,092.52	£2,511.02	£2,929.52
Llandrindod Wells	£870.67	£1,015.78	£1,160.89	£1,306.00	£1,596.22	£1,886.44	£2,176.67	£2,612.00	£3,047.33
Llanelwedd	£837.74	£977.36	£1,116.99	£1,256.61	£1,535.86	£1,815.10	£2,094.35	£2,513.22	£2,932.09
Llanfihangel Rhydithon	£840.52	£980.61	£1,120.69	£1,260.78	£1,540.95	£1,821.13	£2,101.30	£2,521.56	£2,941.82
Llangunllo	£838.85	£978.65	£1,118.46	£1,258.27	£1,537.89	£1,817.50	£2,097.12	£2,516.54	£2,935.96
Llanyre	£842.46	£982.87	£1,123.28	£1,263.69	£1,544.51	£1,825.33	£2,106.15	£2,527.38	£2,948.61
Nantmel	£842.15	£982.50	£1,122.86	£1,263.22	£1,543.94	£1,824.65	£2,105.37	£2,526.44	£2,947.51
New Radnor	£845.79	£986.76	£1,127.72	£1,268.69	£1,550.62	£1,832.55	£2,114.48	£2,537.38	£2,960.28
Old Radnor	£839.01	£978.84	£1,118.68	£1,258.51	£1,538.18	£1,817.85	£2,097.52	£2,517.02	£2,936.52
Painscastle	£834.60	£973.70	£1,112.80	£1,251.90	£1,530.10	£1,808.30	£2,086.50	£2,503.80	£2,921.10
Penybont & Llandegley	£838.53	£978.28	£1,118.04	£1,257.79	£1,537.30	£1,816.81	£2,096.32	£2,515.58	£2,934.84
Presteigne & Norton	£859.79	£1,003.09	£1,146.39	£1,289.69	£1,576.29	£1,862.89	£2,149.48	£2,579.38	£3,009.28
Rhayader	£858.23	£1,001.26	£1,144.30	£1,287.34	£1,573.42	£1,859.49	£2,145.57	£2,574.68	£3,003.79
St Harmon	£837.13	£976.66	£1,116.18	£1,255.70	£1,534.74	£1,813.79	£2,092.83	£2,511.40	£2,929.97
Whitton	£838.46	£978.20	£1,117.95	£1,257.69	£1,537.18	£1,816.66	£2,096.15	£2,515.38	£2,934.61

PENDERFYNWYD	Rheswm Dros y Penderfyniad:
<p>3. FOD y symiau a gaiff eu cynnwys ym mharagraff 2.1 uchod yn cael eu derbyn gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2015/2016 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992</p> <p>4. FOD y Cyngor yn unol ag Adran 30 (2) o'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992, gyda hyn yn gosod y symiau a gaiff eu cynnwys ym mharagraff 2.3 fel y symiau o Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2015/2016 am bob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir.</p>	<p>Diwallu gofynion cyfreithiol y Cyngor i osod swm i'r Dreth Gyngor.</p>

<b>9.</b>	<b>DATGANIAD POLISI TÂL</b>	<b>CC32 – 2015</b>
-----------	-----------------------------	--------------------

Datganodd pob swyddog a oedd yn bresennol ac a oedd â ddi-ddordeb yn yr eitem hon hynny, a gadael y cyfarfod wrth iddo gael ei drafod.

Ystyriodd y Cyngor y datganiad polisi tâl ar gyfer 2015 – 16.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm Dros y Penderfyniad:</b>
<b>Cymeradwyo'r datganiad polisi tâl. (Copi wedi ei gadw gyda'r cofnodion a arwyddwyd).</b>	<b>Sicrhau cydsynio gydag Adran 38 (1) y Ddeddf Lleoliaeth 2011.</b>

<b>10.</b>	<b>PENODI AELODAU I GYNGOR IECHYD CYMUNEDOL POWYS</b>	<b>CC34 – 2015</b>
------------	-------------------------------------------------------	--------------------

Ystyriodd y Cyngor benodi Aelodau i Gyngor Iechyd Cymunedol Powys a oedd yn cael ei sefydlu ar 1 Ebrill 2015.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm Dros y Penderfyniad</b>
<b>Fod y Cyngorwyr Sir A.W. Davies, M.R. Harris, P. Harris, D.R. Jones, D.G. Thomas a D.H. Williams i'w henwebu i wasanaethu ar Gyngor Iechyd Cymunedol Powys.</b>	<b>Enwebu aelodau i wasanaethu ar Gyngor Iechyd Cymunedol Powys.</b>

<b>11.</b>	<b>HYSBYSIAD CYNNIG - CANOLFAN IECHYD LLANWRTYD</b>	<b>CC35 – 2015</b>
------------	-----------------------------------------------------	--------------------

Y mae Cyngor Sir Powys yn gresynu ynghylch cael gwared ar warant lleiafswm incwm practis oddi wrth Bractis Meddygol Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd a fydd yn arwain at gau Canolfan Iechyd Llanwrtyd. Noda'r Cyngor Sir fod y feddygfa hon yn darparu gofal iechyd Sylfaenol i dros 1,200 o gleifion ac mae'n darparu amrywiaeth gyflawn o gyfleusterau iechyd gan gynnwys fferyllfa sydd ar agor o 8.30 a.m. i 4.30 p.m. yn ddyddiol. Mae cangen Llanfair ym Muallt o'r practis yn gwbl analluog i wneud lle i drosglwyddiad y fath nifer sylweddol o gleifion, ac y mae o leiaf 13 o filltiroedd i ffwrdd oddi wrth Lanwrtyd, does braidd dim trafndiaeth gyhoeddus ac y mae'r ffyrdd yn aml yn rhai trafferthus yn ystod y gaeaf. Felly, y mae'r Cyngor Sir yn galw ar gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i gwrdd ag aelodau a etholwyd yn lleol i'r Cyngor Sir, cynrychiolwyr Cyngorau Tref Llanwrtyd a Llanfair-ym-Muallt ac ymarferwyr meddygol i drafod fformiwlâ a fyddai'n galluogi Canolfan Iechyd Llanwrtyd i aros ar agor i ddiwallu anghenion y gymuned wledig bwysig iawn hon.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir T.J. Van Rees

Eiliwyd gan Y Cynghorydd Sir E.A. York

Wrth drafod y cynnig, nododd y Cynghorydd Van Rees fod yna gyfres o gyfarfodydd wedi bod ers ei gyflwyno, gyda'r nod o ddatrys y sefyllfa a diolchodd i Roger Williams AS, William Powell AC, Kirsty Williams AC a Matthew Dorrance a weithredai yn rhinwedd eu swydd fel aelodau o Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, am eu cymorth. Diolchodd hefyd i'r Prif Weithredwr am ei gymorth wrth drefnu cyfarfod â Chyfarwyddwr Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Croesawodd y Cynghorydd York hefyd yr ymdrechion a oedd yn digwydd i ddatrys y sefyllfa a nododd fod y meddygon o'r practis hefyd yn cefnogi Uned Glan Irfon yn Llanfair-ym-Muallt.

Cadarnhaodd y Cynghorwyr Matthew Dorrance a Melanie Davies a oedd yn siarad yn rhinwedd eu swydd fel aelodau o Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, fod y Bwrdd Iechyd yn ymroddedig i ddatrys y sefyllfa.

**PENDERFYNWYD** fod Cyngor Sir Powys yn gresynu ynghylch cael gwared ar warant lleiafswm incwm practis oddi wrth Bractis Meddygol Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd a fydd yn arwain at gau Canolfan Iechyd Llanwrtyd. Noda'r Cyngor Sir fod y feddygfa hon yn darparu gofal iechyd Sylfaenol i dros 1,200 o gleifion ac mae'n darparu amrywiaeth gyflawn o gyfleusterau iechyd gan gynnwys fferyllfa sydd ar agor o 8.30 a.m. i 4.30 p.m. yn ddyddiol. Mae cangen Llanfair-ym-Muallt o'r practis yn gwbl analluog i wneud lle i drosglwyddiad o'r fath nifer sylweddol o gleifion, ac y mae o leiaf 13 o filltiroedd i ffwrdd oddi wrth Lanwrtyd, does braidd dim trafnidiaeth gyhoeddus ac y mae'r ffyrdd yn aml yn rhai trafferthus yn ystod y gaeaf. Felly, y mae'r Cyngor Sir yn galw ar gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i gwrdd ag aelodau a etholwyd yn lleol i'r Cyngor Sir, cynrychiolwyr Cynghorau Tref Llanwrtyd a Llanfair-ym-Muallt ac ymarferwyr meddygol i drafod fformiwla a fyddai'n galluogi Canolfan Iechyd Llanwrtyd i aros ar agor i ddiwallu anghenion y gymuned wledig bwysig iawn hon.

Ymatalodd y Cynghorwyr Sir Matthew Dorrance a Melanie Davies rhag pleidleisio gan eu bod yn aelodau o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

12.	<b>CWESTIYNAU'N UNOL Â'R CYFANSODDIAD</b>	<b>CC36 – 2015</b>
-----	-------------------------------------------	--------------------

### 12.1 Cwestiwn i ddeiliad y portffolio ar gyfer Adfywio a Chynllunio oddi wrth Y Cynghorydd Sir Gary Price

**Yn dilyn y cyhoeddiad na fydd Taith Prydain yn cynnwys Powys yn 2015, a all Ddeiliad y Portffolio ddweud wrth y Cyngor pa drafodaethau sydd wedi digwydd cyn ac ar ôl y cyhoeddiad?**

*Yn 2013 cafodd pob awdurdod lleol yng Nghymru wahoddiad i fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn Ras Seiclo Taith Prydain. Anfonwyd llythyr gan Gyngor Sir Powys yn datgan diddordeb o'r fath, yn dilyn croesawu camau cychwyn llwyddiannus o 2010 ymlaen.*

*Ar ddiwedd 2013 rhoddwyd cynllun strategol pum cam at ei gilydd gan Uned Prif Ddigwyddiadau Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Sweetspot, trefnwyr Taith Prydain, gan amlinellu'r ardaloedd yng Nghymru a fyddai'n cymryd rhan yn y Daith rhwng 2014 a 2018.*

*Roedd y cynllun hwn yn cynnwys cam cychwyn ar gyfer Powys yn 2014. O'r dechrau roedd y cynllun bob amser yn cynnwys un cam yng Nghymru yn 2015 a byddai hwn yng Ngogledd Cymru gyda ffocws mwy gogleddol i'r Daith yn gyffredinol, ac nid oedd yn rhywbeth yr oedd Cyngor Sir Powys yn gallu dylanwadu arno.*

Fel ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Price, cytunodd Deiliad y Portffolio na fyddai ymateb y Cyngor i'r newyddion nad oedd y geiriau "ni ddylai Powys fod yn farus" yn ddewis da o eiriau a chadarnhaodd y byddai'r Cyngor yn parhau i weithio i ddod â digwyddiadau mawreddog i'r sir.

## **12.2 Cwestiwn i ddeiliad y portffolio ar gyfer HR a ICT oddi wrth Y Cynghorydd Sir Aled Davies**

**Cododd aelodau o'r cyhoedd bryderon ynghylch smygu yn adeiladau Cyngor Sir Powys. Ceir rheolau clir ynghylch smygu yn adeiladau'r Cyngor. Pa weithredu gellir ei wneud i sicrhau fod polisi'r Cyngor yn cael ei ufuddhau?**

*Ym mis Awst 2008, cyflwynodd y Cyngor Bolisi Gweithle Di-fwg. Adolygwyd y polisi hwn ym mis Awst 2013. Mae'r polisi'n gymwys i'r holl gyflogeion, aelodau etholedig, ymwelwyr, contractwyr, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau eraill o'r cyhoedd tra'u bod nhw yn adeiladau'r Cyngor.*

*Mae'r polisi'n datgan na chaiff Smygu ei ganiatáu yn unrhyw un o adeiladau'r Cyngor nac unrhyw gerbydau sy'n eiddo i'r Cyngor, a reolir gan neu a ddefnyddir gan y Cyngor. Cafodd e-bost yn atgoffa cyflogeion o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r polisi ei anfon ar 2 Rhagfyr 2014. Caiff y trefniadau ar gyfer gorfodi'r polisi eu disgrifio yn y darn isod:*

*"Cyfrifoldeb yr holl gyflogeion a rheolwyr llinell yw cynnal safonau gweithle iach a sicrhau fod y polisi'n cael ei ufuddhau.*

*Mae cyfrifoldeb gan Aelodau Etholedig, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth ac Uwch Reolwyr i sicrhau fod y polisi'n cael ei gymhwyso'n gyson ar hyd a lled y Cyngor drwy weithredu yn y modd angenrheidiol bob tro y byddant yn dyst, neu'n derbyn adroddiadau fod y polisi'n cael ei dorri.*

*Dylid cael cyngor a chanllawiau o ran gweithredu'r polisi hwn yn ymarferol ac ar gyfer adegau pan gaiff ei dorri, oddi wrth Adnoddau Dynol.*

*Bydd methiant o ran dilyn y polisi hwn, er gwaetha'r cymorth gaiff ei gynnig, ac o ran cadw adeiladau'r Cyngor yn ddi-fwg, yn arwain at gymhwyso Gweithdrefn Disgyblu'r Cyngor.*

*Dylid gofyn i unrhyw un sy'n gynwysedig yn y polisi hwn sy'n cael ei ganfod yn smygu yn adeiladau'r Cyngor, fel yr amlinellwyd uchod, stopio smygu a'u cynghori eu bod yn torri polisi'r Cyngor. Â bod cyflogai'n herio ei reolwr ynghylch ei hawl i smygu, dylai'r rheolwr gyfeirio at y canlynol:*

- *Polisi'r Cyngor yw hwn sy'n berthnasol i iechyd a diogelwch yn y gwaith ac y mae'n seiliedig ar yr un egwyddorion sy'n berthnasol i beiriannau peryglus, sylweddau gwenwynig ac yn y blaen.;*
- *Dymuna'r Cyngor gyfleu negeseuon iechyd cadarnhaol i'w gyflogeion a'r cyhoedd;*
- *Ni all cyflogai herio hawl y cyflogwr i gyflwyno gweithleoedd iachach a diogelach*

*Nid yw gwrthod stopio'n dderbyniol a dylid rhoi gwybod amdano i'r uwch reolwyr. Cyfrifoldeb adran wasanaeth y cyflogai yw cymryd y camau angenrheidiol, gan gynnwys disgyblu os yw hynny'n ofynnol, i beidio ag annog smygu mewn ardaloedd gwaharddedig, gan gymryd cyngor oddi wrth AD fel sy'n angenrheidiol.*

*Dylid gofyn i gontractwyr sy'n troseddu yn erbyn y polisi stopio smygu yn yr adeiladau. Dylid gofyn i gontractwr sy'n gwrthod stopio smygu adael yr adeiladau."*

Dynododd yr Arweinydd ei fod eisiau edrych i mewn i'r mater gyda'r Undebau Llafur. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau ychwanegol.

### **12.3 Cwestiwn i ddeiliad y portffolio ar gyfer y Priffyrdd oddi wrth y Cynghorydd Sir Dawn Bailey**

**Bydd Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol newydd 2015 yn gosod allan mewn manylder sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflenwi yn y meysydd trafndiaeth hynny y mae'n gyfrifol amdanynt er mwyn cyflawni'r deilliannau fel y'u gosodir yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru o 2015 a thu hwnt.**

**Mae cyfnod ymgynghori drafft y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015 yn dod i ben ar 11 Mawrth 2015.**

**Fel Aelod Lleol etholaeth y gororau, Trewern, a leolir ar y ffin rhwng Swydd Amwythig a Sir Faesyfed, y mae'n rhwystredig iawn gweld datblygiadau o ran ceisiadau ffordd osgoi'r Drenwydd tra bo cynllun a ddynodwyd yn wreiddiol ryw ddeugain mlynedd yn ôl ac yn fwy diweddar yn 2004 ar gyfer ymyraethau tebyg ar yr A458, cefnffordd Buttington Cross i Wollaston Cross yn parhau wedi ei ddynodi yn y Cynllun fel testun ystyriaeth bellach.**

**Cyhoeddwyd yn ddiweddar fod y Gweinidog Trafnidiaeth, Edwina Hart AC wedi sefydlu Fforwm Ffordd Draws Ffiniol er mwyn helpu i ddatgloi'r cyfyngder presennol ar gynlluniau ffordd sy'n croesi ffiniau Cymru a Lloegr. Cafodd cyfeiriad penodol ei wneud i'r Fforwm ailagor trafodaethau ar gynllun ffordd osgoi A483 Llanymynech i'r Pant a leolir ar y brif gefnffordd rhwng Wrecsam ac Abertawe. A all deiliad y portffolio, felly, gadarnhau pa gynrychiolaeth sydd gan y Cyngor hwn ar y Fforwm ac a yw'r cynllun cefnffordd A458 Tal-y-Bont (Buttington Cross) i Wollaston Cross hefyd i ffurfio rhan o'r trafodaethau yn y dyfodol?**

**Ymhellach, pa sicrwydd all Ddeiliad y Portffolio ei roi i mi fod y Cyngor hwn yn parhau'n ymroddedig i wella cysylltiadau trafndiaeth coridor y dwyrain-gorllewin rhwng Cymru a Lloegr?**

*Yn gyntaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r Cynghorydd Bailey am ei lobïo parhaus i'r Gweinidog dros nifer o flynyddoedd a oedd yn cefnogi gwelliannau lleol i adrannau o'r gefnffordd.*

*Yn ail, nodaf fod buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn isadeiledd Canolbarth Cymru yn cael ei werthfawrogi ac mae'r Cyngor Sir yn gwbl gefnogol o ddatganiadau'r Gweinidog o ran cael gwared ar gyfyngiadau argyfyngus ar rwydwaith y ffordd Dwyrain-Gorllewin, fel yn y Drenewydd a Phont ar Ddyfi.*

*Gall dod i gytundeb ynghylch blaenoriaethau buddsoddi sy'n pontio ffiniau gweinyddol fod yn anodd, ond ymddengys fod camau ar waith i oresgyn hyn. Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor wedi cael gwybod fod unrhyw "Fforum" wedi ei sefydlu. Yr hyn sy'n glir, yn dilyn ymgynghoriad â'r Ysgrifennydd Gwladol Trafnidiaeth, yw bod swyddogion Llywodraeth Cymru a'u cymheiriaid o'r Asiantaeth Briffyrdd, yn cyfarfod i drafod cysylltiadau priffyrdd cyffredin. Dylai hyn gynnwys ffordd osgoi A483 Llanymynech i'r Pant a'r A458, adran Buttington Cross i Wollaston Cross na chaiff eu cynnwys ar hyn o bryd ym Mhrif Raglen Prosiectau'r Asiantaeth.*

*Fodd bynnag, rydw i'n deall pryderon lleol a godir gan ymgynghoriad cyfredol am adolygiad Drafft y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Fel y saif, ceir nifer o gynlluniau ffordd ym Mhowys sy'n parhau yn y categori "i'w gwneud" ac mae'r rheini a ddynodwyd yn unig ar gyfer "ystyriaeth bellach" yn cynnwys ffordd osgoi Llanfair-ym-muallt a Rhaeadr a gwelliant i'r A458 Tal-y-Bont (Buttington Cross) i Wollaston Cross.*

*Mae ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei lunio ar sail ranbarthol er mwyn gosod y cyd-flaenoriaethau a phryderon awdurdodau lleol yng Nghanolbarth Cymru (hynny yw Powys, Cyngor Sir Ceredigion a Chynghorau Gwynedd). Cynigir bod y testun canlynol yn cael ei gynnwys fel rhan o'r ymateb hwnnw:*

*"Gyda golwg ar Ganolbarth Cymru nid yw'r NTP yn dal yr angen am welliannau i'r darnau canlynol o briffordd sydd wedi eu dynodi fel rhai problematig o ran diogelwch, ac a ddynodwyd fel rhai sy'n cario traffig trwm sylweddol a thraffig cludiant ysgafn yng nghyfrif Cordon 2012:*

- *A458 o Tal-y-Bont (Buttington Cross) tua'r ffin o Dreberfedd ac ymlaen i Halfway House yn Swydd Amwythig (HGVs a LGVs yn 26% o'r holl draffig)"*

*Cyfeiriwyd at y cynllun hefyd yng Nghydgynllun Trafnidiaeth Lleol Canolbarth Cymru yn ddiweddar ac yn Strategaeth Priffyrdd cynharach y rhanbarth; Yn ychwanegol at hyn, gan fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn y broses o ddiweddarau ei "Fanifesto ar gyfer Cymru Wledig", awgrymwyd iddynt y dylai'r cynllun hwn, a Llanymynech-Pant, gael ei symud yn ei flaen fel ei fod yn 'barod i ddechrau' pan fydd yr arian ar gael.*

*Fel y gwyddom, mae'r ffin yn anweledig i fusnesau ac i economi'r rhanbarth. Yr hyn sydd ei angen nawr yw cydweithio sy'n cefnogi diogelwch y cyhoedd,*

*yn gwella hygyrchedd a datblygiad buddiol a bydd y Cyngor yn parhau i ymgychu am fuddsoddiad yn y rhan hwn o'r rhwydwaith ffordd genedlaethol.*

Nid oedd cwestiwn atodol gan y Cyngorydd Bailey ond diolchodd i Ddeiliad y Portffolio am ei gefnogaeth.

#### **12.4 Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth y Cyngorydd Sir Gwilym Williams**

**Mae llawer o bobl yn f'etholaeth gan fy nghynnwys i, yn bryderus am y nifer o ymgynghorwyr a gaiff eu cyflogi gan Gyngor Powys.**

**Cafwyd erthygl yn y papur yn ddiweddar yn son am dri ymgynghorydd yn ennill dros £1 miliwn o fewn ychydig o flynyddoedd o gyflog.**

**Felly, fel arweinydd, chi sy'n gyfrifol am yr holl ddeiliaid portffolio, a chaiff ymgynghorwyr eu cyflogi ledled Powys mewn gwahanol adrannau portffolio.**

**Fy nghwestiwn i i chi fel arweinydd yw, a allwch chi ddweud wrthyf faint o ymgynghorwyr gaiff eu cyflogi'n gyfredol gan Gyngor Sir Powys, a faint ydym ni fel awdurdod yn ei dalu i'r ymgynghorwyr hyn yn fisol?**

*Caiff manylion am yr ymgynghorwyr a gyflogir gan y Cyngor yn 2014/15 eu ffeilio gyda'r cofnodion arwyddedig.*

*Yn hanesyddol y mae'r Cyngor wedi comisiynu gwasanaethau ymgynghori i gyflenwi cyngor a gwasanaethau arbenigol pan na fo'r sgiliau arbenigol hyn wedi bod ar gael oddi fewn i'r Cyngor. Gydag arian yn lleihau fwyfwy o du Llywodraeth Cymru, ceir pwysau sylweddol ar y Cyngor i newid y modd y mae'n cyflenwi a/ neu'n gweithio gydag eraill i gyflenwi gwasanaethau, a hynny'n ddramatig ac yn gyflym. Mae'r pwysau hyn, ynghyd â'r ffaith fod y Cyngor wedi, ac y bydd angen i'r Cyngor barhau i leihau'r nifer o staff y mae'n eu cyflogi'n uniongyrchol, yn golygu fod gallu'r Cyngor i ddylunio a chyflenwi prosiectau newid trawsffurfiol mawr heb gyngor a chymorth o ffynhonnell allanol wedi ei gyfyngu ac y mae'r angen i gomisiynu gwasanaethau ymgynghori arbenigol yn debygol o gynyddu. Heb y gefnogaeth arbenigol hon, mae prosiectau fel y rheini sy'n gysylltiedig â gwella gofal cymdeithasol ac ysgolion yn annhebygol o gael eu cyflenwi mewn modd amserol a chost effeithiol. Fodd bynnag, fe gaiff ei gydnabod fod angen i'r Cyngor barhau i fod yn glir iawn ynghylch y fanyleb ar gyfer gwaith ymgynghorol a gomisiynir i sicrhau fod contractau o'r fath yn cyflawni disgwyliadau o ran ansawdd ac yn amserol, ond hefyd yn cynnig gwerth am arian.*

Wrth ateb cwestiwn atodol y Cyngorydd Williams, esboniodd yr Arweinydd fod y ffigyrau'n berthnasol o fis Mawrth 2014 i Chwefror 2015 a chytunodd i ddarparu manylion i Aelodau a chostau staff asiantaethau a gyflogir gan y Cyngor. Rhoddodd wybod hefyd ei fod wedi gofyn am adroddiad i gael ei baratoi ar gyfer y Cabinet a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth Deiliad y

Portffolio ar gyfer penodi unrhyw un o'r ymgynghorwyr a oedd yn costio mwy na £10,000.

### 12.5 Cwestiwn i ddeiliad y portffolio ar gyfer Priffyrdd oddi wrth y Cynghorydd Sir Russell George

**A wnaiff yr aelod Cabinet ddarparu diweddariad ar glirio sbwriel oddi ar ymylon ffyrdd a gwrychoedd ledled Powys?**

*Ein harferiad cyfredol yw casglu sbwriel yn rheolaidd ledled rhwydwaith Cefnffordd a Phriffyrdd y Sir ddwywaith y flwyddyn. Caiff y casgliad cyntaf o sbwriel ei gyflawni yn ystod mis Mawrth cyn bod y glaswellt yn dechrau tyfu, a'r ail yn ystod cyfnod mis Medi. Er mwyn rhoi peth persbectif ar hyn, mae'r gost oddeutu £40k bob tro ac yn cynnwys cerdded y rhan fwyaf o'r 500 milltir fwy neu lai, ar ddwy ochr y ffordd. Yn ychwanegol at y cynnal a chadw rheolaidd hwn, caiff ymdrech ei wneud i ymateb i adroddiadau a chwynion i ddelio â manau penodol o sbwriel sy'n peri poendod.*

*Y mae'n siom fod yn rhaid i'r lefel hwn o wariant gael ei gyfeirio at fynd i'r afael â'r hyn sydd yn broblem gwbl ddianghenraid yn y bon. Ar y llaw arall, y mae'n galonogol nodi gwir gynnydd yn ddiweddar o ran y nifer o grwpiau gwirfoddoli; gan gynnwys rhai a arweinir gan Gynghorwyr Sir, sy'n geffylau blaen o ran helpu â'r gweithgaredd hwn a gwella'u cymunedau mewn ffordd amlwg.*

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau atodol..

### 12.6 Cwestiwn i ddeiliad y portffolio ar gyfer Priffyrdd oddi wrth y Cynghorydd Sir Russell George

**A wnaiff yr aelod Cabinet ddarparu diweddariad am gyflwr Ffyrdd ym Mhowys, sydd o gyfrifoldeb i Gyngor Sir Powys?**

*Mae amrediad y cwestiwn yn eithaf cyffredinol, felly bydd f'ymateb iddo'n gyffredinol hefyd, ond petai mater mwy penodol yn cael ei godi, yna byddwn yn hapus i ymateb fel sy'n briodol.*

*Yr ateb cyflym i'r cwestiwn yw bod ein rhwydwaith ffyrdd gwledig mewn cyflwr sy'n dirywio, ond ei bod yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel.*

*Wrth ystyried lefel lleiafswm y gyllideb yr ydym yn gallu ei ddynodi i gynnal a chadw ein rhwydwaith ffyrdd gwledig, mae'r pwyslais o ran ymdrech wedi ei gyfeirio at fynd i'r afael yn brydlon â materion diogelwch ac ymgymryd â chymaint ag sy'n bosibl o'r gwaith cynnal a chadw sylfaenol.*

*Dros y 3 blynedd diwethaf cawsom fudd oddi wrth gynllun Fenter Benthycy Llywodraeth Leol sydd wedi arwain at fuddsoddiad o dros £15M wedi ei dargedu'n bennaf at ddychwelyd rhai o'n ffyrdd gwledig llai pwysig i gyflwr da. Mae hyn wedi cyfrannu at wella cyflwr cyffredinol y ffyrdd gwledig, ond o'i roi*

*mewn persbectif, mae cydbwysedd presennol cynlluniau atgyweirio strwythurol dynodedig ffyrdd y sir yn parhau ar tua £30M, gyda'r gyllideb flynyddol gyfredol ar gyfer cynnal a chadw tua thraean o'r hyn sy'n ofynnol i gynnal a chadw'r ffyrdd mewn 'cyflwr sefydlog' (heb eu gwella a heb ddirywio).*

*Heb y buddsoddiad cyfalaf ychwanegol a ddaw yn sgil y cynllun grant sy'n gorffen eleni, bydd yr her i gynnal ein rhwydwaith dros y blynyddoedd sy'n dod yn cynyddu'n sylweddol, a bydd dulliau newydd ac arloesedd yn angenrheidiol os ydym am liniaru posibilrwydd o gyflymu o ran dirywiad ein rhwydwaith ffyrdd.*

Cwestiwn atodol y Cynghorydd George oedd a oedd y Cyngor wedi gwneud sylwadau i Lywodraeth Cymru ynghylch y ffaith fod Menter Benthycyca Llywodraeth Leol yn dod i ben. Rhoddodd Deiliad y Portffolio wybod nad oedd yn ymwybodol am ba sylwadau oedd wedi eu gwneud. Eto, nododd fod yr arian wedi galluogi'r Cyngor i ymgymryd â rhagor o waith a bod y Cyngor ar hyn o bryd ar gyfradd ymhlith yr isaf o bob awdurdod yng Nghymru am gyflwr ffyrdd a'r gwariant isaf am bob cilomedr. Nododd hefyd fygythiad pellach i gyllideb y Briffordd gan fod cyllideb yr Asiantaeth Cefnffyrdd wedi ei dorri gan Lywodraeth Cymru.

## **12.7 Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Gofal Cymdeithasol Oedolion oddi wrth y Cynghorydd Sir Russell George**

**A fyddai'r Aelod Cabinet gystal â darparu diweddariad am ba wersi a ddysgwyd yn dilyn adolygiad annibynnol ar ofal cartref?**

**A yw'r Awdurdod wedi cysylltu â defnyddwyr gwasanaeth neu aelodau teulu i ymddiheuro am fethiannau'r Awdurdod o ran gofal cartref?**

*Cydnabyddwn fod yna wersi i'w dysgu o ran yr hyn a fu'n un o'r newidiadau trawsffurfiol mwyaf y mae'r cyngor wedi ymgymryd ag ef. Mae adroddiad Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ac ymateb Cyngor sir Powys yn rhannau hanfodol o'n proses ddysgu wrth i ni ymgeisio gwneud gwelliannau drwy wahanol fodelau o gyflenwi gwasanaeth. Cafodd yr adroddiad ac ymateb cychwynnol i'r argymhellion eu derbyn a chytunwyd arnynt gan Gabinet Cyngor Sir Powys ar 06/01/15 ([http://intranet.powys.gov.uk/index.php?id=130&L=0&membs2%5bformname%5d=documents\\_form&membs2%5bmeetingld%5d=2015-01-06c1&membs2%5baq%5d=1&membs2%5blimit%5d=0](http://intranet.powys.gov.uk/index.php?id=130&L=0&membs2%5bformname%5d=documents_form&membs2%5bmeetingld%5d=2015-01-06c1&membs2%5baq%5d=1&membs2%5blimit%5d=0)). Cafwyd hefyd ymddiheuriad pellach oddi wrthyf innau a'r Cyfarwyddwr Strategol Pobl ar 06/01/15 am y gofid a'r pryder yr oedd yr anawsterau wedi eu hachosi i'n defnyddwyr gwasanaeth.*

*Cafodd yr adolygiad ei ysgogi yn dilyn adborth oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth a effeithiwyd yn uniongyrchol gan y newidiadau; roedd y profiad i rai defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig yng ngogledd y sir, wedi bod yn*

*anodd iawn ac yn annerbyniol ac rydym yn flin iawn mai dyna ddigwyddodd. Cyfathrebwyd hyn wrth unigolion a theuluoedd drwy gydol y broses ddiogelu a chwyno ac wrth gyfathrebu canlyniad ymchwiliadau diogelu unigol i'r defnyddwyr gwasanaeth unigol a'r teuluoedd a gafodd eu heffeithio.*

*Caiff ail adroddiad manylach sy'n ymateb i Adolygiad Annibynnol Comisiynu Gofal Cartref ei gynnwys ar agenda'r Cabinet ar gyfer 3 Mawrth 2015 ([Mewnwyd Cyngor Sir Powys: Dogfennau Cyfarfodydd Pwyllgor](#)). Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys fframwaith atebolrwydd a chynllun gweithredu manwl er mwyn datblygu dysgu a gwelliant. Yr wyf yn hyderus y bydd yr adroddiad hwn a'r atodiad yn darparu ymateb manwl i gwestiwn yr Aelod (manyion uchod). Mae'r adroddiad hwn a'r cynllun gweithredu manwl ar y cyd â sefyllfa a amlinellwyd i adroddiad y cabinet ar 06/01/15 yn arddangos fod yna waith sylweddol ar y gweill a gwaith i'w ymgymryd ag ef yn y dyfodol.*

*Mewn ymateb i'r adolygiad ac fel yr amlinellir yn y fframwaith atebolrwydd strategol a gwblhawyd a'r cynllun gweithredu; mae Gofal Cymdeithasol Oedolion wedi sefydlu grŵp prosiect ymroddedig a chynllun prosiect i ddatblygu'r adolygiad strategol o'r model ar gyfer gofal cartref. Mae'r adolygiad strategol yn cynnwys mecanwaith cyflawni arfaethedig y Cyngor ar gyfer y canlynol:*

- *Cyflenwi gofal cartref cynaliadwy, diogel a fforddiadwy yn un o ardaloedd mwyaf tenau ei phoblogaeth yn y DU gyda'n darparwyr*
- *Adrodd yn ôl mewn amser real drwy'r lledaenu electronig ynghylch unrhyw alwadau a gollwyd neu a oedd yn hwyr*
- *Monitro ansawdd cyflenwi diogel*
- *Cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â'n defnyddwyr gwasanaeth ynghylch dewisiadau'r dyfodol, yn enwedig pan fo unrhyw newid o ran darparwr neu ofalwr yn angenrheidiol a hynny'n fyr rybudd*
- *Recriwtio a chadw gweithlu gofal mewn ardal o ddiweithdra isel ble nad yw gwaith gofalu yn cael ei weld fel dewis deniadol*
- *Deall effaith costau uned lawn gan gynnwys cymhlethdod amser teithio a chyflenwi mewn cymunedau anghysbell a'r hyn mae hyn yn ei olygu o ran cynaliadwyedd yn y dyfodol ar gyfer y farchnad gofal cartref mewn partneriaeth â'r darparwyr*
- *Rhannu dysgu a phrofiad ar hyd a lled y rhwydwaith yn yr Awdurdodau Lleol a'r darparwyr, mae'r farchnad yn gymharol ddibrofiad o ran symud ymlaen drwy'r amseroedd hyn o lynder cynyddol ac nid yw Powys ar ei ben ei hun gyda'r heriau hyn*
- *Adeiladu rhwydweithiau cymunedol fwy o faint drwy'r trydydd sector a'r gymuned*
- *Dulliau gweithredu a dealltwriaeth lawn o ble mae'r galw'n dod - "dull gweithredu system gyfan" - mae hyn yn cynnwys ein practis gwaith cymdeithasol, datblygiad teleiechyd, gofal tymor byr ac ail-alluogi, gweithio â'n partneriaid yn enwedig y GIG, Meddygon Teulu a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.*

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau atodol.

**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol ar y sail y byddai datgeliad ohonynt o wybodaeth a eithriwyd o dan gategori 1 Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007.

<b>13.</b>	<b>DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS A STRATEGAETH BUDDSODDIAD BLYNYDDOL</b>	<b>CC33 – 2015</b>
------------	-----------------------------------------------------------------------------------	--------------------

Ystyriodd y Cyngor y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth Buddsoddiad Blynyddol.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm Dros y Penderfyniad:</b>
<b>Cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddiad Blynyddol.</b>	<b>Gofyniad Statudol</b>

Rhoddodd Yr Arweinydd wybod fod y Cyngorydd Sir Dai Davies yn ymddeol o'r Cabinet a hynny o'r 8 Mawrth 2015 am resymau iechyd. Byddai'r Cyngorydd Sir Wynne Jones yn cymryd drosodd y portffolio Cyllid a'r Cyngorydd Sir John Brunt yn ymuno â'r Cabinet fel Deiliad Portffolio'r Priffyrdd. Diolchodd yr Arweinydd a'r Aelodau y Cyngorydd Davies am ei waith caled a'i natur benderfynol o ran cyflenwi cyllideb gytbwys i'r Cyngor.

**L.R.E. DAVIES**  
**CADEIRYDD**